



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion o ran y Clyw



Fersiwn 2 Gorffennaf 2016


Rhagair

Croeso i'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion o ran y Clyw (Cymru) 2016. Mae'n bleser gen i gadarnhau'r Safonau Ansawdd yn feincnodau i wasanaethau awdioleg y GIG i oedolion yng Nghymru.

Gan adeiladu ar lwyddiant y fersiwn ddiwethaf a gyhoeddwyd yn 2009, cafodd Safonau Ansawdd 2016 eu llunio gan brif awdiolegwyr Cymru ar y cyd â'u cydweithwyr yn yr Alban. Cafodd y gwaith gymorth cynrychiolwyr o Action on Hearing Loss a'r Grŵp Cynghori Sefydlog Arbenigol ar Awdioleg, sy'n rhan o Bwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru. Mae'n enghraifft glir o ofal iechyd darbodus wrth ddarparu gwasanaethau awdioleg. Mae'r Safonau Ansawdd yn annog cydgyhyrchu gyda mwy o bwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth a chynlluniau rheoli unigol, ac maent yn sicrhau bod gan gleifion lais wrth wneud penderfyniadau yn fwy nag erioed o'r blaen.

Wrth ddatblygu'r Safonau Ansawdd hyn, mae awdiolegwyr Cymru wedi ymateb i syniadau newydd wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG, a hynny er gwir fudd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau awdioleg yng Nghymru. Rwy'n annog pob bwrdd iechyd i roi hwb i'w gwasanaethau awdioleg drwy roi'r safonau hyn ar waith yn ddiymdroi, a chan barhau i gydymffurfio â hwy.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r datblygiad pwysig hwn yn ein gwasanaethau awdioleg.



Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Cyflwyniad

Cefndir

Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion yn 2008. Ers 2009/10 mae holl wasanaethau awdioleg y GIG yng Nghymru wedi hunanasesu ac wedi cael archwiliad allanol ar sail y Safonau hyn.

Mae defnyddio'r Safonau yng Nghymru wedi rhoi modd o fesur datblygiadau arwyddocaol yn ansawdd y gwasanaeth ledled y wlad. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae angen diwygio'r Safonau er mwyn iddynt barhau'n gyson â datblygiadau mewn technoleg ac arferion. Mae hyn yn rhoi cyfle hefyd i egluro a gwella deunyddiau sy'n cyd-fynd â'r safonau, gan sicrhau bod y broses archwilio yn parhau'n gadarn ac yn effeithiol.

Datblygu Ail Fersiwn y Safonau Ansawdd

Cafodd Gweithgor ei sefydlu ac arno uwch-glinigwyr, rheolwyr, cynrychiolydd o Action on Hearing Loss ar ran y trydydd sector, a chynrychiolaeth o blith rhanddeiliaid allanol. Cafodd academydd ei gyfethol gan y gweithgor hefyd er mwyn adolygu'r dystiolaeth a datblygu'r rhestrau cyfeirio.

Amcanion y Gweithgor

Prif amcan y gweithgor oedd datblygu, ar y cyd, Ail Fersiwn y Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion o ran y Clyw. Wrth wneud hyn, ystyriwyd pum prif maes lle gellid gwneud newidiadau:

1. ystyried pa mor berthnasol oedd y Meini Prawf presennol yn sgil y dystiolaeth ddiweddaraf am yr arferion a'r datblygiadau mewn technoleg
2. ystyried a datblygu'r Safonau mewn meysydd nad oeddent yn ddigon manwl na phenodol
3. aralleirio'r Meini Prawf presennol er mwyn osgoi amwysedd neu gamddechongli
4. ystyried lle yn y Safonau y mae angen Meini Prawf
5. sgorio a phwysoli'r Meini Prawf a datblygu canllawiau ynghylch y dystiolaeth y mae ei hangen i gyd-fynd â sgoriau hunanasesu

Ymgynghori

Ymgynghorwyd ddwywaith ar y fersiwn ddrafft o'r Safonau hyn. Yn gyntaf, ymgynghorwyd â'r rheini a chanddynt brofiad sylweddol o ddefnyddio fersiwn wreiddiol y Safonau. Roedd hyn yn cynnwys Penaethiaid Awdioleg a Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion yn y GIG, ynghyd ag Archwilwyr allanol o Wasanaethau Awdioleg y GIG ac Action on Hearing Loss.

Yr ail gam oedd ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth, a chynhaliwyd pedwar o ddiwyddiadau grŵp ffocws wyneb yn wyneb, arolwg ansoddol ar-lein, a holiadur meintiol ar bapur.

Defnyddiwyd yr adborth o'r ddau gam ymgynghori er mwyn datblygu a diwygio'r Safonau Ansawdd ymhellach.

Y Cyd-destun a'r Dull o Ddisgrifio Ansawdd Gwasanaeth

Mae'r safonau yn dilyn trefn sy'n adlewyrchu llwybr y claf fel a ganlyn:

Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion o ran y Clyw

Safon 1 Defnyddio'r Gwasanaeth
Safon 2 Cyfathrebu â Chleifion
Safon 3 Asesu
Safon 4 Datblygu Cynllun Rheoli Unigol
Safon 5 Rhoi'r Cynllun Rheoli Unigol ar Waith
Safon 6. Effeithiolrwydd Clinigol
Safon 7 Sgiliau ac Arbenigedd
Safon 8 Cydweithio
Safon 9 Gwella'r Gwasanaeth

Mae'r cynnwys wedi'i gyfyngu'n fwriadol i eitemau sy'n berthnasol i Awdioleg yn unig neu sy'n haeddu sylw arbennig y tu hwnt i safonau iechyd a gofal arferol, gofynion deddfwriaethol a llywodraethol, neu arferion da cyffredinol. O ganlyniad dylai'r safonau hyn, sy'n benodol i'r gwasanaeth, gyd-fynd â'r gofynion eraill; maent yn fwy penodol ac wedi'u seilio'n fwy ar dystiolaeth er mwyn helpu i ddiffinio'r hyn sy'n gwneud ansawdd gwasanaeth yn dda ac i roi'r canlyniadau gorau i gleifion.

Mae'r safonau'n disgrifio arferion da a'r hyn y dylid ei ddefnyddio i gael tystiolaeth o ganlyniadau iechyd. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar gydymffurfio â'r safonau'n unig wrth bennu pa mor effeithiol yw gwasanaethau wrth roi canlyniadau a bodlonrwydd i gleifion.

Y Newidiadau yn yr Ail Fersiwn

Dyma'r prif newidiadau yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Safonau:

- Datblygu rhesymeg a meini prawf ychwanegol ar gyfer ymyrryd heb ddefnyddio teclynnau
- Amrediad sgorio newydd gan symud o 1-5 yn yr hen fersiwn i 0-4 lle bydd methu â chydymffurfio bellach yn cael sgôr o 0
- Rhestr o dystiolaeth bosibl y gellir ei defnyddio i ddangos sut mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r meini prawf

Y Safonau

Ffurf

Mae'r Safonau yn cynnwys naw o *Ddatganiadau o Safonau* sy'n egluro lefel y perfformiad y mae angen ei gyrraedd. I gyd-fynd â'r rhain ceir y sail dystiolaeth sy'n rhoi'r *rhesymeg* dros bob Safon. Mae'r *Datganiadau o Safonau* yn ymestyn wedyn i gynnwys nifer o *Feini Prawf* sy'n nodi'r hyn y mae angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'r safon. Mae'r *Datganiadau o Safonau* wedi'u rhestru isod. Mae manylion am y sail dystiolaeth, y rhestr gyfeirio sy'n cyd-fynd â hi, a'r *Meini Prawf* i gyd wedi'u cynnwys yn y *Pecyn Asesu ac Archwilio* sy'n mynd law yn llaw â'r ddogfen hon.

Y Datganiadau o Safonau

Safon 1. Defnyddio'r Gwasanaeth

Bydd pob claf sydd â phroblemau clyw ac sydd angen defnyddio gwasanaeth Awdioleg, ynghyd â'u cymheiriaid agos:

- yn gallu defnyddio gwasanaeth Awdioleg sy'n ateb eu hanghenion,
- yn gallu cyrraedd y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn gyfleus,
- yn gallu gweld gweithwyr Awdioleg neu weithwyr meddygol proffesiynol ar y pwynt cyswllt cyntaf, yn unol â'r meini prawf clinigol y cytunwyd arnynt yn lleol,
- yn aros dim mwy i ddefnyddio gwasanaethau Awdioleg drwy un llwybr cyfeirio na thrwy un arall, 1
- os byddant yn glaf presennol sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar gyfer ailasesu, yn aros dim mwy na chlaf newydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf,
- yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Awdioleg mor gyflym ag unrhyw wasanaethau meddygol cymharol eraill.

Caiff data am y galw am wasanaethau a data cyfeirio ei fonitro'n gywir, ei adolygu a'i gofnodi ochr yn ochr â'r dangosyddion sydd ar gael, a'i ddefnyddio wedyn i gynllunio'r gwasanaeth.

Bydd pawb sy'n defnyddio cymhorthion clyw yn gallu cael cymorth a chynhaliaeth effeithiol a pharhaol gydol eu hoes.

Safon 2. Cyfathrebu â Chleifion

Caiff gwybodaeth ei chyfnwid mewn ffordd amserol a pherthnasol ar mwyn ateb anghenion cleifion sydd â nam ar eu clyw, ynghyd â'u cymheiriaid agos, mewn dulliau sy'n gweddu i'w gallu i gyfathrebu.

1 Gellir cyfeirio person at wasanaethau Awdioleg am y tro cyntaf naill ai'n uniongyrchol trwy'r Meddyg Teulu neu o'r Meddyg Teulu at Feddygaeth Trwyn a Gwddf (ENT) neu Feddygaeth Awdiofestibwlar (AVM). Ni ddylai cleifion aros yn hirach i weld gweithwyr Awdioleg yn uniongyrchol nag a fyddent pe baent yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Awdioleg drwy ENT neu AVM. Yn yr un modd, dylai cleifion sydd am aildechrau defnyddio gwasanaethau Awdioleg er mwyn cael eu hailasesu allu gwneud hynny drwy gyfeirio'u hunain, ac ni ddylent aros yn hirach na phe baent yn cael eu cyfeirio am y tro cyntaf gan Feddyg Teulu.

Safon 3. Aseu

Bydd pob claf yn cael asesiad Awdiolegol sy'n gweddu i'r unigolyn, a hwnnw'n cael ei gynnal yn unol â'r safonau cenedlaethol cydnabyddedig, pan fydd rhai'n bodoli, ac yn cynnwys:

- mesur y nam ar eu clyw,
- aseu sut y mae'r nam ar eu clyw yn cyfyngu'r gweithgareddau y gallant eu gwneud,
- gwerthuso anghenion cyfathrebu a gwrando cymdeithasol ac amgylcheddol, a gwerthuso agweddau, disgwyliadau, cymhellion ac ymddygiad o ganlyniad i'r nam ar y clyw,
- edrych ar yr hanes meddygol perthnasol.

Safon 4. Datblygu Cynllun Rheoli Unigol

Dylai pob claf gael cynllun sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer yr unigolyn i reoli eu hanghenion. Bydd y cynllun hwn:

- wedi'i seilio i ddechrau ar y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y cyfnod aseu,
- yn cael ei lunio ar y cyd â'r claf a/neu eu cymheiriaid agos,
- yn cael ei ddiweddarau ar sail barhaol,
- ar gael i'r tîm clinigol,
- yn cynnwys gwybodaeth am yr ymyriadau a argymhellir er mwyn ateb anghenion y claf yn y ffordd orau.

Safon 5. Rhoi'r Cynllun Rheoli Unigol ar Waith

Caiff y Cynllun Rheoli Unigol ei roi ar waith dros gyfres o apwyntiadau, gyda chyfle i ddiwygio'r anghenion, y camau gweithredu a'r canlyniadau bob tro. Bydd y gyfres o apwyntiadau yn amserol ac efallai y byddant yn cynnwys sawl disgyblaeth.

Pan fydd y Cynllun yn nodi bod angen rhoi cymhorthion clyw, bydd y gwasanaeth yn sicrhau:

- bod gweithdrefnau a phrotocolau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer eu ffitio a'u gwirio yn cael eu dilyn ar y lefel leol,
- bod y cymhorthion clyw yn gweithio'n iawn,
- bod cleifion yn cael cynnig cymhorthydd clyw ar gyfer pob clust pan fydd gofyn am hynny'n glinigol, a bod cleifion yn cael cefnogaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth dda,
- bod perfformiad y cymhorthion clyw yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn, a bod y gosodiadau yn cael eu cofnodi.
- Pan fydd y Cynllun yn nodi bod angen technoleg gynorthwyol ar gyfer y clyw, bydd y gwasanaeth yn sicrhau:
 - bod cleifion yn cael cefnogaeth i ddewis pa mor addas ydynt
 - bod cleifion yn cael eu cyfeirio'n effeithiol at ddarparwyr technoleg o'r fath

Gellir rheoli'r broblem clyw heb ddefnyddio technoleg fel yr unig fodd o'i rheoli, neu i gyd-fynd â defnyddio cymhorthion clyw.

- Lle bydd angen ymyrryd heb ddefnyddio technoleg, bydd y gwasanaeth yn

sicrhau:

- Bod cleifion a'u cymheiriaid agos yn gallu defnyddio'r dull neu'r dulliau ymyrryd mewn ffordd amserol a chyfleus
- Bod yr ymyriadau heb dechnoleg sy'n cael eu cynnig yn ateb anghenion y cleifion a'u cymheiriaid agos

Ar ôl rhoi'r Cynllun Rheoli Unigol ar waith, bydd proses o gefnogaeth a chynhaliaeth gyson yn parhau.

Safon 6. Effeithiolrwydd Clinigol

Caiff canlyniadau ac effeithiolrwydd y Cynllun Rheoli Unigol eu gwerthuso a'u cofnodi.

Caiff canlyniadau ac effeithiolrwydd y gwasanaeth drwyddo draw eu gwerthuso a'u cofnodi er mwyn canfod tueddiadau a phatrymau a all fod yn sail i ddatblygu a chynllunio'r gwasanaeth.

Safon 7. Sgiliau ac Arbenigedd Glinigol

Bydd gan bob gwasanaeth, gan ddefnyddio dull llywodraethu tîm, y gallu clinigol angenrheidiol i asesu ac ymyrryd mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Caiff pob tasg ei gwneud o fewn fframwaith sefydledig sydd wedi'i seilio ar gymwyseddau ac wedi'i chytuno'n genedlaethol.

Safon 8. Cydweithio

Bydd gan bob gwasanaeth Awdioleg brosesau a strwythurau i sicrhau ei fod yn gallu cydweithio'n effeithiol.

Dylid canfod a sefydlu patrymau cydweithio sy'n addas i anghenion cleifion a'r gwasanaeth, a gall hyn fod gydag asiantaethau a gwasanaethau mewnol ac allanol.

Safon 9. Gwella'r Gwasanaeth

Bydd gan bob gwasanaeth brosesau er mwyn mesur ansawdd y gwasanaeth. Bydd yr ansawdd yn cael ei fesur er mwyn cynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth a'u rhoi ar waith.

Bydd gan bob gwasanaeth brosesau er mwyn ymgynghori'n rheolaidd â chleifion a rhanddeiliaid.

Bydd gan bob gwasanaeth brosesau er mwyn bod yn ymwybodol o'r arloesi diweddaraf sy'n berthnasol i Awdioleg, ac er mwyn defnyddio'r datblygiadau hynny.

Y Cynllun Rheoli Unigol

Mae'r Cynllun Rheoli Unigol yn ganolog i'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu i Oedolion o ran y Clyw. Mae'n syniad sydd wedi'i seilio'n gadarn ar arferion da. Mae'n golygu cofnodi'r sgwrs rhwng yr awdiolegydd a'r claf am yr hyn y mae'r claf yn ei deimlo, ei angen neu'n ei ddisgwyl; yr hyn y mae'r awdiolegydd yn gallu'i gynnig; a sut y mae'r awdiolegydd a'r claf yn cytuno i symud ymlaen.

Nid oes ffurf na thempled penodol ar gyfer y Cynllun. Rhagdybir y bydd gan wasanaethau nodiadau manwl am y sgysiau hyn yng nghofnodion eu cleifion. Nid yw'r Cynllun yn ffurflen sy'n olrhain hanes y claf nac yn gofnod o ganlyniadau'r asesiad, er y bydd hanes y claf a statws y clyw yn bendant yn help i fod yn sail i'r Cynllun ac felly'n debygol o gael eu crynhoi ynddo. Yr hyn sy'n bwysig yw y gall gwasanaeth awdioleg ddangos ar gyfer pob claf fod unrhyw asesiadau sydd i'w cynnal ac unrhyw ymyriadau neu benderfyniadau i gyfeirio ymlaen wedi cael eu trafod yn drylwyr a'u cytuno â'r claf. Dylai pawb sy'n rhan o'r sgwrs sy'n sail i'r cynllun rheoli gael cyfle i gytuno ar gynnwys y sgwrs honno. Mewn geiriau eraill, dylent wybod yn union pa benderfyniadau a wnaed a pham, a dylai fod ganddynt ddealltwriaeth glir sut a pha bryd y bydd triniaeth y claf neu'r asesiad pellach yn digwydd.

Gallai awdiolegydd restru anghenion claf newydd fel hyn: asesu'r clyw; ffitio cymhorthydd clyw; rhoi cyngor a gwybodaeth am dactegau cyfathrebu; rhoi cyngor am ddyfeisiau gwranddo cynorthwyol; rhoi taflenni am dinitws. Gallai'r un claf restru ei anghenion yn dra gwahanol: mae angen i'm cymar roi'r gorau i gecru â mi am fy nghlyw; mae angen sicrwydd arnaf nad oes gen i salwch difrifol; pa mor debygol yw hi y bydd y broblem glywed yn gwaethgu; sut mae cael gwared ar y tinitws; nid wyf am gael cymhorthydd clyw o dan unrhyw amgylchiadau. Mae'n hynod o annhebygol y bydd y naill restr na'r llall yn ymddangos yn y diwedd yng Nghynllun Rheoli Unigol y claf. Drwy gael sgwrs a chyfnewid gwybodaeth yn yr apwyntiad hwn a rhai dilynol, bydd yr awdiolegydd a'r claf yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud, a chaiff yr anghenion a'r camau gweithredu y cytunir arnynt ar gyfer y claf eu hadolygu a'u diweddarau dros amser.

Y Sail Dystiolaeth

"Evidence-based medicine is the integration of best research evidence with clinical expertise and patient values," (Sackett et al., 2000 t. 1).

Mae'r sail dystiolaeth bresennol wedi cael ei hadolygu yn drylwyr. Lle'r oedd hynny'n bosibl, ymchwil cyhoeddedig, wedi'i hadolygu gan gydweithwyr, oedd sylfaen y sail dystiolaeth. Mae erthyglau o ddarnau eraill o lenyddiaeth wedi'u cynnwys os oedd y gweithgor yn credu bod hynny'n briodol. Er mwyn galluogi'r darlennydd i weld y lenyddiaeth berthnasol sy'n cyd-fynd â phob safon unigol, mae'r golofn rhesymeg bellach yn cynnwys cyfeiriadau wedi'u rhifo. Mae'r pecyn asesu sy'n cyd-fynd â'r Safonau yn rhoi manylion llawn y rhestr gyfeirio ar gyfer pob safon. Ceir hefyd nifer o ddogfennau cyffredinol sydd wedi bod yn sail i ddatblygu'r ail fersiwn, ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

Sackett, D.L., Straus, S.E., Richardson, W.S., Rosenberg, W. a Haynes, R.B. 2000. *Evidence-Based Medicine: How to Practice and Teach EBM*, (2nd ed.). Churchill Livingstone: Caeredin

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003. *Hanfodion Gofal*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003. *Signposts 2: Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yn y GIG yng Nghymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru., 2005. *Cynllun Oes: Creu Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn yr 21ain Ganrif*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006. *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar Gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gweithrediaeth yr Alban, 2007. *All Our Futures: Planning for a Scotland with an Ageing Population*. Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban

Yr Adran Iechyd. 2007. *Improving Access to Audiology Services in England*. Llundain: Y Llyfrfa.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Yr Adran Iechyd, 2010. *Equity and excellence: Liberating the NHS (White Paper)*. Llundain: Y Llyfrfa.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well, Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Patient Rights (Scotland) Act 2011

Action on Hearing Loss. 2011. *Hearing Matters*. Llundain: Action on Hearing Loss

Llywodraeth yr Alban, 2011. *Reshaping Care for Older People: A Programme for Change*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban

Llywodraeth Cymru, 2011. *Law yn Llaw at Iechyd. Gweledigaeth 5-mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb. Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Annhegwch ym Maes Iechyd*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Aylward, M., Phillips, C. a Howson, H. 2013. *Simply Prudent Healthcare – achieving better care and value for money in Wales – discussion paper*. Cymru: Comisiwn Bevan, Simply Prudent Healthcare

Llywodraeth yr Alban, 2013. *See Hear: A strategic framework for meeting the needs of people with a sensory impairment in Scotland*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban

Bradley, P. & Willson, A., 2014. *Achieving prudent healthcare in NHS Wales (revised)*. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Archwiliadau Allanol i Fesur Sut y Cyflawnir y Safonau

Mae'r broses ar gyfer hunanasesu ac archwiliadau allanol i fesur sut y cyflawnir y Safonau wedi'i nodi mewn manylder yn y ddogfen, *Arrangements for the External Audit of Adult Audiology Services Against the Quality Standards for Adult Hearing Rehabilitation Services* sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Egwyddorion a Phrif Nodweddion y Broses Archwilio Allanol

- Amcan y broses archwilio yw cadarnhau'n allanol y sgoriau hunanasesu (a'r dystiolaeth) sy'n ymwneud â'r safonau'n unig. Nid y nod yw gwerthuso sut mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli na gwneud argymhellion helaeth ar gyfer gwella.
- Dylai'r broses archwilio fod yn gadarn, yn berthnasol, yn effeithiol, yn deg ac yn gyson.
- Rhagdybir y bydd hunanasesiad llawn wedi'i gwblhau cyn yr ymweliad allanol ac y bydd deunydd sy'n rhoi tystiolaeth ar gael yn barod pan fydd yr archwilwyr allanol yn ymweld.
- Bydd yr ymweliadau'n cael eu cynnal ar y cyd gan dîm archwilio allanol, a hwnnw'n cynnwys Prif Archwilydd Annibynnol, Uwch Awdiolegydd o wasanaeth arall, ac un Defnyddiwr Gwasanaeth.
- Bydd archwilwyr allanol yn ymweld â phob Bwrdd Iechyd bob dwy flynedd.
- Bydd Pennaeth Awdioleg pob Bwrdd Iechyd yn dewis cyflwyno un sgôr hunanasesu ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, neu gyflwyno sgoriau hunanasesu ar wahân ar gyfer pob

'gwasanaeth' o fewn y Bwrdd Iechyd. Diffinnir gwasanaethau fel adrannau parhaol sydd â staff parhaol (ynghyd â'u safleoedd lleol) – gan adlewyrchu'r rheini sydd wedi cynnal hunanasesiadau blaenorol. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys, lle bydd asesiadau unigol yn cael eu cynnal o dri gwasanaeth y gwahanol ddarparwyr. Fodd bynnag, bydd un ymweliad safle, sef â'r unig safle lle mae staff parhaol (Aberhonddu).

- Bydd ymweliad yr archwilwyr allanol yn cael ei gwblhau dros ddiwrnod (fel arfer 6-7 awr), gan ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer teithio. Dim ond y ganolfan ganolog fydd yn cael ymweliad, yn hytrach na'r safleoedd lleol. Pan fydd y Pennaeth Awdioleg wedi dewis cyflwyno un hunanasesiad ar gyfer yr holl Fwrdd Iechyd, bydd cydlynnydd yr archwiliad yn dewis pa adran yn y gwasanaeth fydd yn cael ymweliad fel rhan o'r archwiliad allanol.
- Rhaid cyflwyno'r sgoriau a asesir yn allanol i'r Prif Weithredwyr a Phenaethiaid Awdioleg pob gwasanaeth perthnasol, a hynny cyn eu cyflwyno i ASSAG a'u gwneud yn gyhoeddus (er enghraifft ar wefan Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru).
- Bydd ASSAG yn penodi cydlynnydd i weinyddu'r cynllun, i gasglu'r canlyniadau, ac i gyflwyno adroddiad i ASSAG ar ôl pob archwiliad.
- Bydd proses apelio ar gael ar gyfer herio'r sgôr allanol neu'r broses archwilio.